# tafod elái

MAI 2010

Rhif 247

Pris 80c


## Blodyn Merched y Wawr




Yng Ngŵyl Flodau'r RHS yng Nghaerdydd dadorchuddiwyd Cenhinen Pedr newydd a enwyd Gwawr i gynrychioli Mudiad Merched y Wawr. Syniad Llywydd Merched y Wawr, Esyllt Jones, (ar y chwith yn y llun) oedd cael blodyn arbennig i Ferched y Wawr a gyda chymorth y Gymdeithas Arddwriaethol a thyfwr blodau yng Nghernyw dewiswyd y blodyn newydd. Dyma'r tro cyntaf i Genhinen Pedr gael enw Cymraeg ac roedd y Merched yn falch iawn o'r lansiad yn yr Ŵyl. Y gobaith yw y bydd pob aelod o'r mudiad yn plannu'r blodyn newydd yn eu gerddi.

## Cadeirio yn Eistedfod y Dysgwyr



Nos Wener 19 Mawrth cynhaliwyd Eisteddfod y Dysgwyr yng Nghanolfan Gydol Oes Garth Olwg. Y beirniaid eleni oedd Delyth Pollard, Mair Robbins a'r prifardd Cyril Jones. Cafwyd cystadlu brwd a llawer o hwyl a braf oedd gweld dysgwyr o'r tri rhanbarth yn cymryd rhan. Enillwyd y gadair eleni gan Richard Kennard gyda'i gerdd am Adfywiad.

## Cwis Cymru




Roedd tîm diymhongar Côr y Mochyn Du yn erbyn rhai o arbenigwyr ifanc Côrdydd yn y rownd o Cwis Cymru a gynhaliwyd yn y Mochyn Du ym mis Ebrill. Roedd y ddau dîm yn chwarae gartref yn y gêm gyfeillgar o dan reolaeth Stifyn Parri gyda phob math o gwestiynau am Gymru a Chymry. Tîm Côrdydd oedd Tom Guy, Angharad Roche a Stuart Munroe ond y tîm oedd yn dathlu ar ddiwedd y cwis oedd Carol Williams, Rowland Wynne a Gwenfyl Thomas yn cynrychioli Côr y Mochyn Du.



# tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**HYSBYSEBION**
**David Knight 029 20891353**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 4 Mehefin 2010
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
26 Mai 2010

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg**
**Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



**CYLCH CADWGAN**

***FFLUR DAFYDD***
yn trafod a pherfformio ei gwaith diweddaraf

**Nos Wener,**
**11 Mehefin**
**Am 8yh**

Yn festri Bethlehem
Gwaelod y Garth

**MERCHED Y WAWR**
**Cangen y Garth**

**Gosod Blodau**
**gyda Kevin Davies**

Yn Ysgol Creigiau
am 8.00yh
Nos Fercher 12 Mai
Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20892830

**CLWB Y DWRLYN**

***Taith i Ystradfellte***
***Dydd Sadwrn, 8 Mai***

***Helfa Drysor***
***Nos Wener, 18 Mehefin***

***Gwybodaeth bellach:***
***029 20892038***

Cydnabyddir cefnogaeth
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

# Y Mesur Iaith Gymraeg

Ydi'r ddeddf iaith newydd a gyhoeddwyd tua mis yn ôl gan Lywodraeth Cymru yn mynd i gryfhau'r Gymraeg?

Gadewch i ni ystyried un enghraifft syml: cyfle i blant weld a chlywed y Gymraeg tu allan i'r ysgol. Dyma sydd, yn ôl yr arbenigwyr, yn hollbwysig er mwyn cynyddu defnydd yr iaith. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Caerdydd yn cyfaddef nad ydynt yn darparu unrhyw wersi nofio trwy'r Gymraeg. Felly, gofynnodd aelod o Gymdeithas yr Iaith i'r Gweinidog Treftadaeth yn ddiweddar a fydd y Mesur Iaith yn golygu y byddai'n rhaid i gynghorau roi cyfleoedd i blant defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol? Na fydd, oedd yr ymateb.

Pa werth ymarferol yw'r ddeddfwriaeth felly, os nad yw'n galluogi plant sy'n byw yng Nghaerdydd i gael hawliau i gael gwersi nofio yn y Gymraeg? Ai yn y dosbarth yn unig y maen nhw i weld y Gymraeg?

Mae darn mawr o jig-so y mesur ar goll ar hyn o bryd. Yr unig sôn am hawliau yn y mesur iaith yw hawl i gwmnïau a chyrff geisio osgoi unrhyw gyfrifoldeb i roi gwasanaethau Cymraeg. Dim hawliau i blant, ond hawliau i gwmnïau. Allwn ni ddisgwyl gwasanaethau gwell yn y Gymraeg? Eto, na allwn.

Y gwir yw na fydd hawl i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd, ni fydd hawl gan blant na rhieni i addysg cyfrwng Gymraeg, ac ni fydd gan y Gymraeg statws swyddogol yn ein gwlad o dan y cynlluniau, er gwaethaf addewidion y Llywodraeth. Rydym ni eisiau yr hawl i'r Gymraeg oherwydd rydym ni eisiau gweld hyder pobl yn yr iaith yn cynyddu.

Mewn llythyr agored i gylchgrawn Golwg fe ddywedodd un deg tri o gyfreithwyr: "*Ofnwn fod y Mesur yn greadur llai effeithiol nag y gallasai fod i ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr hinsawdd ieithyddol yng Nghymru.*" 'Datblygiad o gynlluniau iaith' yn unig yw'r mesur hwn yn ôl y Llywodraeth. Dyna pam mae Cymdeithas yr Iaith yn dweud bod y gwleidyddion yn colli cyfle enfawr i wneud gwahaniaeth pwysig dros yr iaith yng Nghaerdydd, a Chymru gyfan.

Dewch gyda ni! Cefnogwch ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i gryfhau'r Mesur:

- Dewch i'n **Rali yng Nghaerdydd am 11yb, Mai 22 tu allan i'r Senedd yng Nghaerdydd**
- Defnyddiwch ein ffurflen ar-lein i wneud yn siŵr bod gwleidyddion yn sylweddoli bod angen cryfhau'r mesur: www.cymdeithas.org/lobi.php erbyn Mai 11.
- Llofnodwch ein deiseb http://deiseb.cymdeithas.org

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577

**Swyddi newydd**
Llongyfarchiadau i blant rhai o ddarllenwyr mwyaf selog y Tafod yn Nhonyrefail. Mae mab Walter a Shirley Jones, Ceri, wedi'i benodi yn Arolygydd ei Fawrhydi, ac mae merch John a Myfanwy Hunt, Siân, wedi'i phenodi yn Rheolwr yn y Bwrdd Iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am bobl dan anfantais feddyliol. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt yn eu swyddi newydd.

**Anafiadau**
Mae'r ddau frawd talentog sy'n chwarae pêl-droed dros dîm dan 13 oed Tonyrefail allan gydag anafiadau ar hyn o bryd. Mae Jac (y capten) wedi torri ei foch wrth fynd i benio'r bêl ac mae Gruff heb chwarae ers anafu ei droed ddechrau'r flwyddyn. Gobeithio bydd y ddau yn holliach ar gyfer ymweliad y tîm ag Awstria ym mis Gorffennaf. Mae'r ddau yn ddisgyblion yn Llanhari. Eu tad, John, yw hyfforddwr y tîm, a chlywir aml i orchymyn yn cael ei weiddi yn Gymraeg yn ystod y gemau.

## Wyn i ofalu am y Llyfrgell Genedlaethol



Mae'n bleser gan Dafydd Wigley, Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyhoeddi penodiad dau Ymddiriedolwr i wasanaethu ar fwrdd y Llyfrgell. Y ddau yw Mr Wyn Penri Jones a Mr Huw Williams.

Bancar Siartedig yw Wyn Penri Jones sydd wedi dilyn gyrfa eang gyda Banc HSBC ar draws Cymru. Ers 2005 mae'n Ymgynghorydd Datblygu Busnes, ac wedi gweithio i glientiaid megis Bwrdd Croeso Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Menter Cymru. Bu'n ymddiriedolwr Cwmni Theatr Genedlaethol Cymru ac yn Drysorydd ac aelod o fwrdd Cwlwm Busnes Caerdydd o 1994 hyd 2005. Bellach mae'n Gyfarwyddwr a Thrysorydd cwmni Goriad FM Cyf; Ysgrifennydd Cyfreithiol cyntaf Capel Y Tabernacl Cyf Efail Isaf; ac yn Drysorydd Cronfa Goffa Ryan Davies. Yn enedigol o Flaenau Ffestiniog, mae Wyn yn briod gyda phedwar o blant, ac yn byw yn Nhonteg ger Pontypridd.

## LLWYBRAU I'R BRIG!




Ieuenctid yr Urdd yn ennill cymhwyster hyfforddiant trwy waith y mudiad.

Mewn seremoni arbennig ddydd Gwener 26 Chwefror 2010, yn Theatr y Ganolfan Gydol Oes, Garth Olwg, gwobrwywyd Disgyblion Bl 12 â thystysgrifau am eu harweiniad wrth weithio gyda phobl ifanc. Am y tro cyntaf erioed, cyflwynwyd tystysgrif OCN sef Hyfforddiant Arweinyddiaeth Grwpiau Ieuenctid Iau trwy'r corff Agored Cymru i ddisgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg fel rhan o'u gwaith yn cydweithio gydag Eleri Mai Thomas, Swyddog Datblygu Ieuenctid newydd Urdd Gobaith Cymru, yma yn yr ysgol. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Urdd gynnig y cyfle i ddisgyblion o dan eu goruchwyliaeth fanteisio ar ennill achrediadau mewn cydweithrediad â Choleg Cymunedol YMCA Cymru.

Rhan o gynllun newydd 'Llwybrau i'r Brig' sef cynllun Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ran-ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a thrwy gyfraniadau ychwanegol gan bartneriaid eraill, sydd wedi galluogi'r Urdd i gynnig y cymhwyster. Rhan o brosiect 'Cyrraedd y Nod' yw 'Llwybrau i'r Brig' a'r bwriad yw gwella sgiliau a dyheadau pobl ifanc, gan roi'r cyfle gorau iddynt ddatblygu gyrfa lewyrchus yn y dyfodol. Mae lle amlwg hefyd i'r Gymraeg yn y gwaith hwn.

Yn y seremoni, cyflwynodd yr Aelod Cynulliad lleol Jane Davidson (Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai) y tystysgrifau i ddisgyblion Bl 12 Garth Olwg a Bl 8 Ysgol Gyfun Rhydywaun. Yn ymuno â hi i longyfarch y criw roedd Prif Weithredwr yr Urdd, Efa Gruffudd Jones. Yn ystod y seremoni hefyd bu Bethan Walkling a Tenessee Price yn sôn am y profiadau a gafwyd wrth ddilyn y cymhwyster

Yn ôl Eleri Mai, Swyddog Datblygu Ieuenctid i'r Urdd yn ardal Rhondda Cynon Taf ac a fu'n cydweithio â dwsin o'r criw ar y cymhwyster: "Rydw i mor falch o weld y criw yma'n derbyn eu tystysgrifau heddiw. Maen nhw wedi gweithio'n galed iawn i ennill y cymhwyster. Cawson ni hwyl garw nôl ym mis Medi pan fuom yn swogio yng Nghanolfan yr Urdd Llangrannog. Nid yn unig roedd y criw ifanc yn cael profiad ymarferol o ddelio â phlant a phobl ifanc yn y gwersyll, ond o boptu'r dydd roeddent yn cael sesiynau hyfforddiant gweithio gyda phobl ifanc am awr fore a phrynhawn i drafod ffyrdd o ddelio â phlant yn camfihafio, problemau iechyd a diogelwch, gwneud i blant a phobl ifanc deimlo'n gartrefol, sut i wneud i bawb deimlo'n rhan o weithgareddau, bod yn ymwybodol o hiliaeth, tensiynau ac ati. Roeddent wedyn yn cwblhau tasgau ar bapur ac yn catalogio eu gwaith. Dwi'n credu'n gryf fel Swyddog Ieuenctid fy hun bod y cymhwyster yn mynd i fod o fudd mawr iddynt ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol."

Mae rhai o'r criw sydd wedi derbyn eu tystysgrifau eisoes wedi dangos diddordeb mewn parhau i weithio am gymwysterau pellach ym maes ieuenctid, ac yn ystyried datblygu i lefel nesaf yr OCN.

## Gwefannau Cymraeg

www.cymorth.com
www.gwefan.org
www.tafelai.com
www.caerdydd.biz
www.tabernacl.org
www.menteriaith.org
www.gwe-bethlehem.org
www.urdd.org
www.mentercaerdydd.org
www.bwrdd-yr-iaith.org
www.banglacymru.org.uk

# Parti Pasg y Parc y Fenter



Enillydd cystadleuaeth y bonet Pasg — Padraig Jones o Dreherbert



Martyn Geraint yn diddanu



Priodas Holly ac Alun





Cymeriadau S4C yn y Parti



# Ysgol Garth Olwg



Harriet Hooper yn ennill y gadair

Merched yn perfformio y Ddawns Flodau



Enillwyr cystadlaethau Crefft yr Urdd



Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Llawr Cyntaf, 9 Y Stryd Fawr,
Pontypridd. CF37 1QJ
**01443 407570**
**www.menteriaith.org**

Daeth torf sylweddol i Barc Gwledig Cwm Dâr ddydd Sadwrn, Mawrth 27ain i fwynhau Parti Pasg y Parc Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Mae'r digwyddiad yn ddilyniant i ddiwrnod llwyddiannus tebyg a gynhaliwyd cyn y Nadolig ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda yn Nhrehafod, Porth. Digwyddiad teuluol oedd Parti Pasg y Parc, yn cynnwys perfformiadau gan rhai o artistiaid plant fwyaf enwog Cymru, cystadleuaeth creu boned Pasg, helfa wyau yng nghwmni bwni wen Menter Iaith, a stondinau gan fudiadau Cymraeg y Sir.

Yn creu awyrgylch a naws Cymreig yn y caffi oedd Bethan Nia, y delynores oedd yn gorfod oedi bob hyn a hyn oherwydd perfformiadau gan Martyn Geraint a Heini o S4C. 'Roedd gweld torfeydd o blant yn canu a dawnsio yn olygfa braf iawn i bawb, yn arbennig i'r rhieni hynny sydd efallai ddim yn cael y cyfle i rannu gweithgareddau yn Gymraeg, yr iaith mae eu plant yn cael eu haddysgu ynddi.

Braf yw dangos taw nid yn unig yn y dosbarth mae'r Gymraeg yn medru ffynni a bod yna gyfle i chwarae, canu, dawnsio a chystadlu yn yr heniaith. Casglwyd llwythi o wyau siocled gan blant yr ardal yn yr helfa wyau ac mi oedd na ymddangosiad prin hefyd gan rhai o gymeriadau'r gyfres Holi Hana o Cyw. Ond uchafbwynt y dydd i lawer oedd parêd y gystadleuaeth boned Pasg. Yn ôl Heini, oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth, mi oedd y safon yn eithriadol o uchel ac anodd iawn oedd hi i ddewis enillydd.

Yn y diwedd, PADRAIG JONES O DREHERBERT oedd yn fuddugol o drwch blewyn !! Ar ddiwedd diwrnod llwyddiannus iawn felly mae niferoedd mawr o blant yr ardal wedi cael y cyfle i fwynhau perfformiadau, creu campweithiau a bwyta llwyth o siocled ym Mharti Pasg y Parc.

Hoffai Menter Iaith Rhondda Cynon Taf ddiolch yn fawr iawn i'r Parc am gydweithio mor llyfn yn y broses o drefnu'r digwyddiad a hefyd i'r mudiadau hynny ddaeth â stondin ar y dydd er mwyn helpu i hybu Cymreictod yn yr ardal. Yn bennaf hoffwn ddiolch i'r teuluoedd wnaeth fynychu a sicrhau llwyddiant y dydd.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**PRIODAS**
Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Alun, mab Ken a Judith Evans, Pentyrch, a Holly, merch Geoffrey a Sandra Stedman, Cwmpengraig, ar eu priodas ar 27 Mawrth yn eglwys Drefach – Felindre. Cawsant eu bendithio â thywydd braf ac awyrgylch hapus iawn.

Gwasanaethwyd gan y Ficer Gillibrand a'r Parchedig R. Alun Evans. 'Roedd Esther chwaer Holly, yn forwyn briodas ac Anwen ei nith yn forwyn fach. Cynhaliwyd y wledd briodas a thwmpath dawns yn Y Ffigysbren, Dryslwyn a threuliwyd eu mis mêl yn Ffrainc cyn troedio 'nôl i'w cartref yn y Tyllgoed, Caerdydd.

**HWYL AR HOLI**
Cynhaliwyd noson 'Hwyl ar Holi' gan Glwb y Dwrlyn ar nos Iau Ebrill 15, gyda phanel o dri - Angharad Mair, Ian Gwyn Hughes, a Gwyn Jones - yn ymateb i gwestiynau'r aelodau. O gofio'r panelwyr 'doedd dim syndod bod yr holi a'r ateb yn troi yn aml i fyd y campau ond aethpwyd i nifer o feysydd eraill megis dyfodol darlledu Cymraeg. O dan lywio medrus Huw, y cadeirydd, sbardunwyd sawl sylw, stori ac atgof a'r gynulleidfa wrth eu boddau yn gwrando ar y cyfan – tipyn mwy diddorol a hwyliog na'r hyn a gafwyd gan y panel o dri gwleidydd a ymddangosodd ar y teledu ar yr un noson!

Cynhaliwyd yr achlysur yn lolfa newydd Clwb Rygbi Pentyrch sy'n profi'n gyrchfan cartrefol a hwylus ar gyfer cyfarfodydd o'r fath.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn yn dda i Mr. Basil Evans, cyn-brifathro Ysgol y Creigiau, ar ôl cyfnod o salwch yn ddiweddar.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

**Croeso**
Croeso cynnes i Miss J. Shephard a fydd yn cyd-weithio yn y swyddfa gyda Mrs P. Price, ac i Mrs Z. Williams, a fydd yn cyd-ddysgu Blwyddyn 6 gyda Mr D. Jones, tan ddiwedd y tymor.

Yn ogystal, dymunwn yn dda i Mrs Bode a fydd yn Bennaeth Gweithredol am y tymor, ac i Mr Meredith sydd yn Ddirprwy Gweithredol am yr hanner tymor cyntaf, ac i Mrs Morris a fydd yn Ddirprwy Gweithredol am yr hanner tymor olaf.

**Eisteddfod Ysgol**
Cafwyd Eisteddfod gystadleuol eleni yng Ngarth Olwg. Bu'r plant wrthi yn brysur yn ysgrifennu cerddi a rhyddiaith. Llongyfarchiadau mawr i Harriet Hooper a gipiodd ein cadair. Diolch yn fawr i Eurgain Haf, ac i Alan Jones am gynllunio ein cadair.

**Ymweliad â'r Llyfrgell**
Bu dosbarth Mrs Hale a dosbarth Miss MacDonald yn ymweld â'r llyfrgell. Mwynheuodd y plant bori drwy'r llyfrau, a chwilio am lyfrau i gyd-fynd a'r thema, 'Tywod o Dan fy Nhraed'.

**Canlyniadau cystadleuaeth crefft yr Urdd**
Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yng nghystadleuaeth Crefft yr Urdd eleni. Dyma'r canlyniadau:

Daniel Thomas 2ail 3D Tecstiliau Blwyddyn 5 a 6
Dylan Porter 3ydd Gwaith Creadigol 2D Blwyddyn 3 a 4
Joshua Porter 1af Graffeg Cyfrifiadurol Blwyddyn 5 a 6
Branwen Roberts 2ail Gwaith Creadigol 2D Blwyddyn 5 a 6
Eliza Price 1af Gwaith Creadigol 2D Blwyddyn 2 ac Iau
Katherine Hamilton 2ail Gwaith Lluniadu 2D Blwyddyn 5 a 6

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

*Gohebydd y Mis:*
*Elain Haf*

**DATHLIAD ARBENNIG PRIODAS RUDDEM**

Llongyfarchiadau i Carole a David Powell sydd newydd adnewyddu eu haddunedau priodas ar Fawrth 21ain mewn seremoni arbennig yn Eglwys Llantrisant. Ddeugain mlynedd yn union i'r dyddiad hwnnw y priodwyd nhw yn yr eglwys.

Roedd Cor Meibion Trecorci yn canu yn y gwasanaeth ac mae Dean Powell, eu mab a chyn-ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Gyfun Llanhari, yn aelod blaenllaw ac yn unawdydd gyda'r cor hwnnw.

Cafwyd gwledd i ddilyn yn y Clwb Llafur ar Stryd yr Alarch lle y cyfarfu y ddau yn ôl yn 1966.

Pob dymuniad da iddyn nhw.

**CERDDED O AMGYLCH FFINIAU'R HEN DRE**

Bydd tref hynafol Llantrisant yn dathlu canrifoedd o draddodiad ym mis Mehefin wrth i filoedd heidio yno i ddathlu seremoni Cerdded y Plwyf.

Fe gynhelir y daith gerdded hon bob saith mlynedd ac eleni bydd yn digwydd ddydd Sadwrn y 12fed o Fehefin. Mae'r arferiad yn dyddio'n ôl i 1346 ac fe fydd y sawl sydd am gwblhau'r daith yn gorfod teithio saith milltir yn gyfangwbl. Cynhaliwyd y seremoni ddiwetha yn 2004 ac yn y gorffennol mae pobl wedi teithio o wledydd mor bell a'r Unol Daleithiau, Canada, De Affrica ac Awstralia ar gyfer yr achlysur arbennig hwn.

Bydd hwn yn ddiwrnod i'r teulu i gyd ac mae trigolion Llantrisant a 'rhyddfreinwyr' y dref' yn edrych ymlaen yn eiddgar at y digwyddiad.

**MODEL HOUSE AR AGOR**

Braf yw gweld drysau y Model House ar agor unwaith eto yn dilyn cyfnod hir o waith adeiladu ar ôl i ran o'r to ddisgyn ar ddechrau'r gaeaf. Rhoddwyd les newydd i'r ganolfan o bedwar mis gan y cyngor er mwyn ailsefydlu'r busnes. Byddant yn hynod o werthfawrogol o bob cefnogaeth!

**CLWB GOLFF LLANTRISANT A PHONTYCLUN**

Ddiwedd mis Mawrth agorwyd Canolfan newydd dan do yng Nghlwb Golff Llantrisant a Phontyclun.



Gwahoddwyd Sion Bebb i agor y ganolfan. Dechreuodd Sion ei yrfa yng nghlwb Llantrisant a bellach mae'n adnabyddus drwy Gymru gyfan a thu hwnt fel golffwr proffesiynol. Defnyddir y ganolfan ar gyfer cynnig hyfforddiant dan do pan fo'r tywydd yn anffafriol.

Mae croeso i unrhyw un ddefnyddio'r cyfleusterau drwy gysylltu â'r clwb.

Hefyd cynigir gwersi cychwynnol arbennig i blant dros wyth oed ar fore Sadwrn er mwyn iddynt gael blas ar chwarae golff. Darperir yr offer angenrheidiol.

**Cyngerdd y Tri Chôr**

Nos Iau, 22 Ebrill cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant ym Meisgyn, dan nawdd Côr Merched y Garth. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn ac yn sicr byddai pawb yn cytuno mai sêr y noson oedd aelodau Côr Ysgol Llantrisant a Chôr Ieuenctid Llantrisant. Mae Côr Merched y Garth yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cyfraniad i'r cyngerdd, a oedd yn codi arian i Gronfa Apêl Haiti, ac yn dymno'n dda i'r eitemau niferus a fydd yn cynrychioli Llantrisant a'r cylch yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.

Gohebydd ar gyfer y mis nesa: Allan James. Rhif ffon: 01443 222823

**CYLCH MEITHRIN EFAIL ISAF**
**Bob bore**
**Mawrth, Mercher, a Gwener**
**9.30 - 1.00**
**Bore Iau 9.30 - 12.30pm**
**TI A FI EFAIL ISAF**
**Dydd Iau 12.45pm - 3.00pm**
**Yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf**
**Manylion: 01443 208806**

**TI A FI BEDDAU**
**Bob bore Mercher 10.00 - 11.30a.m.**
**yn Festri Capel Castellau, Beddau**

**TI A FI TONTEG**
**Bob dydd Mawrth 10 - 11.30**
**yn Festri Capel Salem, Tonteg**

**CYLCH MEITHRIN CREIGIAU**
**Mercher a Iau**
**9.30 - 12**
**TI A FI CREIGIAU**
**Bore Gwener 9.30 - 11.30**
**Neuadd y Sgowtiaid**
**Y Terrace, Creigiau**
**Manylion: 07866 087042**

**TI A FI PENTRE'R EGLWYS**
**1.15-2.45p.m. Neuadd Y Plwyf**
**Bob dydd Iau**

**CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD**
**Bore Llun, Mercher a Iau**
**9.30-11.30**
**TI A FI CILFYNYDD**
**Dydd Gwener 9.30-11.30**
**Neuadd Y Gymuned,**
**Stryd Howell,Cilfynydd.**
**Manylion: Ann 07811 791597**

**CYLCH MEITHRIN BRYNNA**
**Dydd Llun - Gwener 9.30 - 12.30**
**01443 229723**

**CYLCH MEITHRIN PONTYCLUN**
**Dydd Llun - Gwener 9 - 12**
**07912 101506**
**Ti a Fi Pontyclun**
**Prynhawn Llun 1.15 - 2.45**

**CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN**
**Dydd Llun - Iau 9.15 - 11.45**
**Ti a Fi bore Gwener 9.30 - 11.30**
**07757 633249**

**CYLCH MEITHRIN LLANHARI**
**Mawrth a Mercher**
**1 - 3pm**
**Neuadd Gymunedol Llanhari**

JOB TRAC CYMRU
Arbenigwyr Recriwtio Siaradwyr Cymraeg
www.jobtraccymru.co.uk

# Newyddion y Dysgwyr

**Newyddion dysgwyr Morgannwg**

Unwaith eto mae hi wedi bod yn amser prysur i'r dysgwyr. Nos Wener 19eg Mawrth cynhaliwyd Eisteddfod y Dysgwyr yng Nghanolfan Gydol Oes Garth Olwg. Y beirniaid eleni oedd Delyth Pollard, Mair Robbins a'r prifardd Cyril Jones. Cafwyd cystadlu brwd a llawer o hwyl a braf oedd gweld dysgwyr o'r tri rhanbarth yn cymryd rhan. Enillwyd y gadair eleni gan Richard Kennard gyda'i gerdd am Adfywiad. Am y tro cyntaf eleni roedd nifer o'r cystadlaethau yr un peth â'r cystadlaethau i ddysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent ym mis Awst gan obeithio bydd llawer o'r dysgwyr yn cystadlu yno. Am y tro cyntaf hefyd roedd yr Eisteddfod wedi cytuno rhoi tocyn mynediad i faes y Brifwyl yn wobr gyntaf i bob cystadleuaeth felly bydd llawer o'n dysgwyr i'w gweld ar faes y Brifwyl eleni. Mawr yw ein diolch hefyd i'r Eisteddfod am eu haelioni.

Nos Iau 25ain o Fawrth cynhaliwyd cinio Pasg mewn bwyty Indiaidd ym Merthyr a'r gwestai oedd Daf Du o Radio Cymru. Roedd yn hyfryd gweld cymaint wedi dod ynghyd a mwynheuodd pawb glywed ychydig o hanes Daf Du a chael cyfle i sgwrsio gyda fe.

Ar ôl egwyl dros y Pasg aeth rhai ohonon ni i gerdded fore Sadwrn 10 Ebrill yng nghwmni Cennard Davies. Roedd yn fore heulog braf ac aeth â ni am dro o Flaenrhondda i ben mynydd Pen Pych ac er y dringo roedd yr olygfa o ben y mynydd yn anhygoel.

Ddydd Gwener 16eg o Ebrill aeth deugain ohonon ni am benwythnos i Nant Gwrtheyrn - allai'r tywydd ddim wedi bod yn well, a chafwyd amser hyfryd a chyfle i gwrdd â ffrindiau hen a newydd. Ymwelwyd â senedd dŷ Owain Glyndŵr ym Machynlleth, cartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, amgueddfa Lloyd George, y mynydd Trydan yn Llanberis a Phortmeirion. Roedd pawb wedi blino'n lan ar ôl cyrraedd nôl nos Sul ond wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Dyma rai o ddigwyddiadau'r mis sy'n dod:

4 Mai - Clwb Cinio Just Because, Pont-y-clun 1 o'r gloch

6 Mai - Grŵp darllen safon Canolradd, Coed Parc 10 – 11

7 Mai - Paned a Chlonc, Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon, Aberdâr 2.30

8Mai - Clwb cerdded 10.30 - Pen-y-bont – cerdded gyda Chymdeithas Edward Llwyd

10 Mai - Grŵp darllen safon Hyfedredd Merthyr Tudful – Siop y Ganolfan 2 o'r gloch

10 Mai - Grŵp darllen Hirwaun, YMCA Hirwaun, 2 o'r gloch

13 Mai - Grŵp darllen safon Uwch, Coed Parc, 10 – 11

14 Mai - Grŵp darllen safon Uwch Treorci - llyfrgell Treorci 11 o'r gloch

19 Mai - Clwb Cinio Coleg Pen-y-bont 12 o'r gloch

19 Mai - Grŵp darllen safon Hyfedredd Gartholwg 12 – 1

27 Mai – taith i'r Amgueddfa Wlân yn Llandysul

Am fwy o fanylion cysylltwch â Shân: smorgan2@glam.ac.uk

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau i Mr Owen Phillips ar achlysur ei ddyweddïad diweddar â Miss Rhiannon Buck. Dymuniadau gorau i'r ddau i'r dyfodol oddi wrth holl staff a phlant yr ysgol.

**Trip i Gastell Gaerdydd**

Fe aeth Blynyddoedd 1 a 2 ar drip i ymweld â chastell Caerdydd a pharc Bute gan ddilyn ôl traed 'Stori Jaci'. Cafwyd amser bendigedig er gwaethaf y glaw!

**Apêl Rainbow Foundation**

Bu disgyblion yr ysgol wrthi'n brysur yn casglu bwydydd sychion, offer ysgol a phethau ymolchi ar gyfer elusen Rainbow Foundation sydd yn helpu plant tlawd yn Rwmania. Daeth Mr Butcher o'r elusen i siarad â'r disgyblion am ei waith yn nhref Targue Mures. Diolch i bawb am eu haelioni wrth gefnogi'r apêl.

**Rygbi**

Mae'r tîm rygbi a'r ysgol yn ddiolchgar iawn i Mr Gowing (un o rieni'r ysgol) am noddi gwisg newydd y tîm. Mae'r wisg newydd yn sicr wedi ysbrydoli'r tîm - llongyfarchiadau iddynt ar eu perfformiad llwyddiannus mewn twrnament yn Ysgol Gyfun Tonyrefail.

**Celf a Chrefft yr Urdd**

Llongyfarchiadau i'r Clwb Celf ar eu llwyddiant gyda'u gwaith crochenwaith yng nghystadleuaeth sirol Celf a Chrefft yr Urdd. Cafodd y gweithdai crochenwaith eu trefnu gan E3- diolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth. Llongyfarchiadau arbennig i Ffion Haf Jones am gael 3ydd yn genedlaethol gyda'i lluniau du a gwyn.

**Dathliadau'r Pasg**

Roedd plant y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn ddigon o sioe yn arddangos eu hetiau Pasg o amgylch yr ysgol. Diolch i'r Adran Iau am drefnu helfa wyau Pasg o amgylch yr ysgol i ddosbarthiadau'r babanod.

**Gari y Clown**

Daeth Gari y Clown i gynnal gweithdai gwyddonol ar y thema 'grymoedd' gyda Blynyddoedd 1 a 2. Roedd y plant wedi mwynhau dysgu am rymoedd drwy wahanol weithgareddau yn ymwneud â'r syrcas.

**Disgo Diwedd Tymor**

Diolch i gymdeithas rieni'r ysgol am drefnu disgos diwedd tymor i holl ddisgyblion yr ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau'r dawnsio a'r gemau.




***'mae gen ti ddewis…'***

Mae gwasanaethau Cymraeg ar gael dros y ffôn, ar-lein, ar bapur a wyneb yn wyneb.

Wrth ffonio, ysgrifennu at sefydliad neu ymweld â sefydliad, edrycha am y dewis iaith.
***Dewisa'r Gymraeg pan fydd ar gael***

Rho wybod i dy deulu a'th ffrindiau fod ganddyn nhw ddewis hefyd.
**www.dewis.org.uk**

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg.
Ewch i **www.cymorth.com**

CYMORTH.COM

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
*029 2068 9888*

**Penwythnos Teulu i Langrannog, Mawrth 26 - 28, 2010**
Cafwyd penwythnos llwyddiannus iawn yn Llangrannog mis Mawrth – dros 45 o deuluoedd wedi mynychu.

Roedd y tywydd yn wych a digon o weithgareddau i gadw pawb yn brysur gan gynnwys sgio, gwibgartio, nofio, merlota, cwrs rhaffau, trip gerdded lawr i bentre Llangrannog, cwis Teulu, a Thwmpath yng nghwmni band gwerin ‘Ddafad Gorniog’.

# Tafwyl

## 12 – 21 Mehefin 2010

Dewch i ymuno yn y gweithgareddau:
Ffair Tafwyl yn y Mochyn Du
Noson Gomedi yng Nghlwb y Diwc
Gig Cymraeg yn y Fuwch Goch
Miri Meithrin – Y Parc
Gig Ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach
Gwyl Feithrin yn Sain Ffagan
Helfa Drysor Hanesyddol yn Mharc Cathays. Cystadleuaeth Bêl-droed yn Gôl. Gŵyl Ifan. Bore Coffi i Ddysgwyr yn y Mochyn Du

# Fforwm 20%

Diolch i holl aelodau Fforwm 20% a fynychodd Ymgynghoriad Ieuenctid yn Y Lolfa Thai, Yr Eglwys Newydd yn ddiweddar. Mynychodd dros 40 o ddisgyblion blynyddoedd 7 - 12 Ysgolion Glantaf a Phlasmawr yr ymgynghoriad a thrafodwyd nifer o bwyntiau pwysig yn ymwneud â ‘Chyfleodd Cymdeithasol Cymraeg i bobl ifanc yng Nghaerdydd’. Ein bwriad fydd cynnal ymgynghoriad arall fis Hydref 2010.






## Cwrs Blasu Cymraeg ‘Welsh for Parents’

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y cwrs ‘Welsh for Parents’ mae cwrs 8 wythnos newydd sbon sydd wedi ei gynllunio ar gyfer rhieni di-Gymraeg sydd am anfon eu plant i addysg llawn amser Cymraeg yn cychwyn ar Fai’r 13eg. Mae’r cwrs yn cynnwys gwersi Cymraeg yn ogystal â sesiynau ymwybyddiaeth iaith. Rydym wedi targedu rhieni cylchoedd Meithrin a Ti a Fi yn ogystal â rhieni sydd wedi anfon eu plant i unedau meithrin ysgolion Cymraeg y ddinas. Mae sesiwn yn ystod y dydd (10am – 11.30am) yn Chapter, Treganna, a sesiwn gyda’r hwyr (7pm – 8.30pm) yng Nghampws UWIC, Llandaf. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sian Lewis – sianlewis@mentercaerdydd.org.
Ariannwyd y cwrs gan Bartneriaeth Pobl Ifanc Cyngor Caerdydd.

ifanc menter caerdydd




Fe ddychwelodd pawb i'r ysgol yn ddiogel wedi gwyliau’r Pasg yn barod i ddechrau tymor newydd prysur a difyr. Croeso mawr i blant bach newydd y Feithrinfa sydd wedi ymgartrefi'n gyflym iawn gyda ni.

Mae themâu newydd gan bob dosbarth - mae plant y Feithrinfa yn mwynhau "Yn yr Ardd" a phlant Dosbarth 1 yn dysgu drwy gyfrwng y thema "Teithio". "Dewch i Ddathlu" yw thema Dosbarth 2, tra bod Dosbarth 3 yn astudio "O Flagur i Flodyn". Gwyddonwyr sydd yn Nosbarth 4 yn astudio "Lliw, Llun a Sain", ac mae plant Dosbarthiadau 5 a 6 yn astudio "Bae Caerdydd a'r Ardal Leol".

Rhan bwysig o'r thema wrth gwrs, yw'r cyfle i gael mynd ar drip neu ddau! Mae Dosbarth 3 eisoes wedi manteisio ar y tywydd braf ac wedi bod ar daith o amgylch y pentref. Gobeithio, a chroesi bysedd mae Dosbarthiadau 5 a 6 y bydd y tywydd braf yn parhau ar gyfer eu taith nhw i Fae Caerdydd. O gwmpas yr ysgol hefyd, braf yw gweld pawb yn manteisio ar yr heulwen i fynd i'r awyr agored i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau!

Fe gewch glywed mwy am yr holl weithgareddau yma fis nesaf!
Lluniau tudalen 13.

## Cynlluniau Gofal Sulgwyn

Lleoliad Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Treganna
**1 – 4 Mehefin, 8.30am – 5.30pm**
Croeso i ddisgyblion dosbarth derbyn, Bl 1, 2, 3, 4, 5 & 6
£19 y dydd,
Tripiau, gweithdai, ymweliadau, gweithgareddau crefft a choginio, chwaraeon ayyb
Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Meleri@MenterCaerdydd.org
02920 689888

## ‘Hwyl’ Hanner Tymor Sulgwyn

**Gweithgareddau ar gyfer disgyblion blynyddoedd 4, 5, 6**

**Diwrnod yn Merlota**
**Gweithdy Celf**
**Cwrs Paintball**
**Gweithdy Syrffio**

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Awel Davies – 029 20689888 neu AwelDavies@MenterCaerdydd.org**

## Cwis Cymraeg

Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal
Nos Sul, Mai’r 23ain
yn y Mochyn Du am 8yh.
£1 y person. Cwis Feistr Keith Bach!

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol: Jayne Rees*

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Kate Frowen ac Ian Marsh. Priodwyd y ddau yn y Canada Lodge , Creigiau yn ystod gwyliau'r Pasg. Mae Kate yn gyn ddisgybl Ysgol Evan James a Rhydfelen. Mae hi'n athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon. Maent wedi ymgartrefu ym Maesycoed.

**Merched y Wawr**
Bydd Cangen Pontypridd yn cwrdd ar Fai 13eg yn y YMCA am 7.30p.m. pan fydd Mr Cyril Evans yn dod i siarad am 'Hen Greiriau'.

Croeso cynnes i aelodau newydd

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad i'r brodyr Mann-Roger, Peter a Christopher a'u teuluoedd. Bu farw eu mam, Mrs. Vera Mann ym mis Ebrill. Roedd y teulu yn adnabyddus yn yr ardal gan eu bod am flynyddoedd mawr â rownd laeth yn y gymdogaeth.

**Clwb Llyfrau**
Cynhaliwyd cyfarfod i drafod sefydlu 'Clwb Llyfrau' ym Mhontypridd yn ddiweddar. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Fawrth, Mai 18fed am 8.00 p.m. yng Nghlwb y Bont. Y nofel dan sylw fydd 'Cymer y Seren' gan Cefin Roberts. Y bwriad yw trafod nofel Gymraeg neu Saesneg bob yn ail fis. Dewch â'ch syniadau ar gyfer y misoedd i ddod. Byddwn yn cwrdd ar Fehefin 15fed a Gorff.13eg ac yn ail gwrdd ar ôl gwylie'r haf ar Fedi 14eg.

Croeso cynnes i bawb i ddod i gymdeithasu yn ogystal â mynegi barn am lyfre'

**Teithiau tramor**
Wrth ysgrifennu'r golofn yma rydym yn aros i glywed am hanesion Dilys Davies, Maes y Deri, wrth iddi gyrraedd nôl o Awstralia. Yn anffodus roedd Dil yn teithio nôl i Gymru yng nghanol 'strach llwch y llosgfynydd'!! Ar ôl ychydig ddyddiau yn Hong Kong llwyddodd i gael ehediad i Rufain - wedyn ymlaen mewn bws i Calais i ddal y fferi. Dau fws arall ac fe gyrhaeddodd Caerdydd ac un siwrne eto yng nghar Menna Lewis i orffen ei thaith fythgofiadwy i wlad y cangarws. Gobeithio y bydd Dil yn fodlon rhannu ychydig o'i phrofiadau gyda darllenwyr Tafod Elái maes o law !!

Buodd sawl un o Graigwen i Dubai yn ystod gwylie'r Pasg. Mae Huw Caffery yn gweithio yn y Dwyrain Canol fel peiriannydd sifil. Mae'n byw yn Dubai ar hyn o bryd a chafodd roi croeso nid yn unig i'w fam a'i dad, Gerwyn a Bethan ond roedd Menna Lewis a thair o staff Ysgol Rhydfelen hefyd ar eu gwylie' yno.

**Symud tŷ**
Pob hwyl i Greg a Wendy Reynolds wrth iddynt adael Graigwen ar ôl byw yma am flynyddoedd. Maent yn symud i ardal Pentre'r Eglwys.

Yn symud i'w tŷ nhw yn Lan Close mae Meryl a Chris Allan o Hillside View. Dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

# Mudiad Ysgolion Meithrin

**Cylch Meithrin Llanhari**
Mae Cylch Meithrin Llanhari yn mynd o nerth i nerth.

Ar hyn o bryd mae gennym 6 o blant yn mynychu dwy sesiwn yn wythnosol ar brynhawn Mawrth a Mercher o 1-3pm. Y gobaith yw o fis Medi byddwn yn derbyn nifer o blant newydd wrth i fwy o bobl ddod yn ymwybodol o fodolaeth y Cylch.

Mae dau aelod o staff wedi cael eu penodi ac aelod o staff wrth gefn os oes un yn sâl neu ar wyliau - ac maent oll yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Llanhari

Os oes diddordeb gennych i anfon eich plant i'r cylch yma cysylltwch a Sian Price ar 07894651501

**Ti a Fi Creigiau**
Newyddion gwych - mae Amanda Impey nol fel arweinydd Ti a Fi Creigiau! Fe welson ei cholli dros y flwyddyn neu ddwy diwethaf ond mae rhieni wedi sylwi ar y gwelliannau yn barod ers iddi ddod nôl, tywod allan, mwy o amrywiaeth o deganau a siocled poeth! Cofiwch ddod i'r Ti a Fi fore Gwener 9.30-11.30 yn Neuadd y Sgowtiaid - cewch groeso gan Amanda!

Teleri Jones
Swyddog Datblygu Rhondda Taf
Mudiad Ysgolion Meithrin
07800 540316
teleri.jones@mym.co.uk

## Teyrnged i Les Rachub
### gan Colin Gregory



Sefydlwyd Clwb y Bont i bobl fel Les Evans.

Roedd Les yn aelod o'r criw o Gymry yn yr ardal pan gyrhaeddais i'r dre yn 1983. Roedd y gwaith adnewyddu caled wedi dechre er gwaetha prinder cyllid pan ddaeth y mewnfudwr 'o'r north'- o Rachub, ger Bethesda i fod yn fanwl gywir i glywed am fodolaeth y Clwb. Roedd wedi ymgartrefu yng Nglyncoch a dechre teulu. Cyn bo hir roedd Les yn fynychwr selog ac yn amlwg yn ei sedd wrth y drws. Sylwodd ar bopeth a phobun oedd yn mynd a dod yng Nghlwb y Bont a gellid dweud yr un peth am bawb ag ymwelodd â'r clwb- roedd pawb yn 'nabod Les- gan gynnwys, rwy'n siŵr, selebs fel Huw Ceredig, Gerallt Pennant a Meic Stevens.

Yn ystod blynyddoedd cynnar y clwb cafwyd nifer o broblemau - llifogydd, tân a ffrwydrad yn y seler - ond er yn byw tu allan i'r dre fe ddaeth Les i weld beth oedd wedi digwydd ac annog y pwyllgor i ddatrys y problemau ond yn anad dim i gynnig ei help.

Roedd gan Les synnwyr digrifwch eitha' sych a wastad yn barod i fynegi barn ond yn brin iawn ei elynion. Bydde Les yn barod i fynd ar drip bant 'da'r Clwb - i Glwb Ifor Bach neu i Gilmeri!

Roedd Les wrth ei fodd yn y Clwb ar nos Wener - a phe bai bois y Côr Meibion yn hwyr yn cyrraedd ar ôl eu hymarfer roedd Les eisie' gwybod y rheswm. Roedd Les yn un o ffans mawr cyd-ganu nos Wener.

Ie, i bobl fel Les y ffurfiwyd Clwb y Bont. Gwelaf ei eisie yn fawr.
Fe fydd pawb yn gweld ei eisie.

Bu Les Evans farw ym mis Ebrill yn 71 oed ar ôl salwch byr.

# Pen blwydd Hapus Pentre Bach!

Mae Pentre Bach yn dathlu ei bumed pen blwydd ddiwedd Mai eleni!

Ydych chi wedi bod yno eto? Os ydych chi, fe fyddwch yn gwybod fod rhes o dai ac adeiladau ym mhentre Blaenpennal, sydd ryw bum milltir o Dregaron i gyfeiriad Aberystwyth yng Ngheredigion, wedi cael eu haddasu yn arbennig ar gyfer ffilmio cyfres deledu i blant o'r enw 'Pentre Bach'. Ffilmiwyd y gyfres gan gwmni cynhyrchu Sianco ar gyfer S4C ac erbyn hyn mae tua 80 o raglenni wedi eu creu yn adrodd hanesion am yr enwog Sali Mali, Jac y Jwc, Bili Bom Bom, Coblyn a Pili Pala a llu o gymeriadau lliwgar eraill.

**Pum mlynedd brysur**

Mae'r pum mlynedd ddiwethaf wedi bod yn eithriadaol o brysur ac mae'r 'pentre' yn mynd o nerth i nerth yn ôl y perchennog Adrian Savill. 'Oherwydd natur hyblyg y cyfleusterau, mae'r lle yn benthyg ei hun ar gyfer pob math o achlysuron e.e. ar gyfer grwpiau fel tripiau ysgol, clybiau cysgu i ysgolion, cynadleddau preswyl, dathliadau Diwrnod y Llyfr, cyrsiau ysgrifennu creadigol ac ati. Yn ogystal mae Mentrau Iaith, grwpiau o fyfyrwyr o golegau a phrifysgolion yn ymweld â ni a chymdeithasau megis Merched y Wawr, Sefydliad y Merched ac Ysgolion Sul yn trefnu teithiau dirgel yma. Rydym wedi cynnal partion pen blwydd yma i bob oedran o flwydd oed i 100 oed!'

**Gwyliau delfrydol i'r teulu**

Gellwch fynd yno ar eich gwyliau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac aros yn un o'r pedwar tŷ hunan-ddarpar, sydd wedi eu graddio yn 4 seren gan Croeso Cymru. Mae nifer yn llogi'r tai i gyd ar gyfer gwahanol achlysuron e.e. dathlu pen blwydd, aduniadau teuluol, parti clwc (hen party) ac ati.

**Cynlluniau cyffrous**

Mae'r 'National Grid for Learning' Cymru yn lansio adnodd ar lein yn seiliedig ar Pentre Bach.



**Manylion cyffredinol**

Mae'r 'pentre' ar agor drwy'r flwyddyn ar gyfer gwyliau a thripiau i grwpiau. Hefyd mae ar agor i'r cyhoedd ar gyfer ymweld am y diwrnod adeg gwyliau ysgol.

**Manylion cysylltu**


Pentre Bach, Blaenpennal, Aberystwyth, Ceredigion SY23 4TW
01974 251676
pentrebach@btconnect.com





## CORNEL Y PLANT

**Lliwiwch y Clown**






Sut mae Twm yn teithio?



**Y Saith Cysgadur**

Mae saith cysgadur yn y byd
Yn cysgu drwy y gaeaf,
Y draenog coed a'r ystlum bach
A'r crwban araf araf,
Y neidr werdd a'r llyffant llwyd
Y wiwer fach a'r broga,
Ni welwn hwy drwy'r gaeaf maith –
Y Saith Cysgadur Smala!



# Ysgol Gynradd Castellau

**Ymweliadau**
Bu Blwyddyn 5 a 6 yn Sain Ffagan yn fuan wedi gwyliau'r Pasg. Cawsant ddiwrnod buddiol yn dysgu am fywyd yn ystod Oes Fictoria yn Ysgol Maestir. Roedd yn brofiad tra gwahanol i'r disgyblion gael eu dysgu yn y dull Fictorianaidd ac yn gyfle iddynt ddysgu am y Welsh Not, y gansen ac arferion ysgolion y cyfnod. Cawsant hefyd ymweld â Rhyd-y-Car a'r Capel a mwynhau picnic yn y tywydd braf!

Diolch i Mrs Hewitt a ddaeth i'r ysgol yr wythnos hon i sôn am ddiwrnod golchi ers talwm. Cafodd Blynyddoedd 1, 2, 4 a 5 gyfle i ddysgu am yr hen ddulliau o olchi dillad a thro i ddefnyddio'r mangl a'r bwrdd sgwrio.

**Crucial Crew**
Treuliodd Blwyddyn 6 y bore mewn gwahanol weithdai yn Nhrefforest gyda'r Gwasanaethau Cymunedol yn dysgu am beryglon tân a thrydan yn y cartref a'r gymuned leol.

**Cwis Llyfrau**
Wedi wythnosau o waith called a pharatoi, daeth y cyfle i dimoedd Cwis Llyfrau Castellau fynd i gystadlu yn y rownd gyntaf yn Ysgol Y Dolau. Aeth dau dîm brwd o blant o flynyddoedd 3, 4 a 5 i drafod y llyfrau gyda Mr Harris. Llongyfarchiadau iddynt am

# Mwy o Dwrw

Mae'r gyfres 'Twrw yn y Tŷ' yn ôl ar S4C!


Felly, rydym ni'n chwilio am bobl ifanc led led Cymru sy'n haeddu parti am reswm arbennig boed wedi gwneud rhywbeth gwerth chweil dros y gymuned, yn gwella o salwch neu'n dathlu pen-blwydd.

Ydych chi'n adnabod rhai rhwng 10 a 15 oed fyddai'n deilwng i gael gwledd gyffrous, llawn syrpreisus - yna cysylltwch 'da ni, da chi! – drwy ebost:
twrwynyty@avantimedia.tv
neu ffoniwch ni ar 01443 688 529.

Edrychwn ymlaen i glywed oddi wrthych!

# CROESAIR COL

## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau




**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 20 Mai 2010**

**Ar Draws**
4. Gwybedyn (7)
8. Blin (6)
9. Aflêr (7)
10. Gwaeledd (6)
11. Celficyn (6)
12. Llid y nerfau (8)
18. Ysbrydoliaeth (8)
20 Gori (6)
21. To crwn (6)
22. Anwesu (7)
23. Ffurf o weddi (6)
24. Anafus (7)

**I Lawr**
1. Nawddsant (7)
2. Perffaith (7)
3. Llafur neu dlodi er enghraifft (6)
5. Yn mynegi (8)
6. Rhagorol dros ben (6)
7. Rhywbeth i roi ar fara (6)
13. Trychiadau (8)
14. Ailuniad (7)
15. Allforio eilwaith (7)
16. Cyffwrdd â (6)
17. Rhedeg ymaith (6)
19. Rhynllyd (6)

## Atebion Ebrill

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LL | O | E | G | R | | C | | A | C | T | O | R |
| | S | | R | | T | O | N | | L | | E | |
| E | G | L | U | R | | F | | P | A | N | D | Y |
| | O | | G | | O | N | D | | DD | | W | |
| D | I | N | O | D | | O | | B | U | D | R | O |
| | | E | | I | L | D | I | O | | A | | |
| C | R | I | N | O | | | | N | O | F | E | L |
| | | D | | E | N | A | I | D | | A | | |
| P | A | R | O | D | | N | | O | E | D | F | A |
| | S | | E | | Y | S | U | | I | | I | |
| C | E | N | N | U | | A | | C | L | E | R | A |
| | TH | | Y | | B | W | A | | Y | | W | |
| C | U | L | N | I | | DD | | A | DD | A | S | U |

# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol:*
*Loreen Williams*

**Yn yr Ysbyty**
Dymunwn adferiad iechyd buan a llwyr i Ann Rees, Penywaun sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod y mis.

Bu John Llewelyn Thomas, Nantcelyn hefyd yn yr ysbyty'n derbyn triniaeth ar ei lygaid.

Dymuniadau gorau i chi eich dau.

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau i Ffion, merch hynaf Geraint a Caroline Rees, Penywaun ar ei phenodiad i Adran Newyddion y BBC yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau iti yn dy swydd newydd.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Liz Rees, Ffordd yr Orsaf sydd wedi derbyn ei gradd mewn nyrsio.

**Maes Parcio Newydd**
Mae'n braf deall bod y maes parcio newydd wrth gefn Neuadd y Pentref wedi ei gwblhau. Gobeithio bydd y tagfeydd traffig o gwmpas y neuadd a'r Capel yn lleihau o hyn ymlaen.

## Y TABERNACL

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i Mrs Beryl Rowley a'r teulu ar adeg marwolaeth Ken. Bu'r angladd yn y Tabernacl ddydd Mawrth, Ebrill 20fed.

**Bedydd**
Cawsom wasanaeth arbennig iawn fore Sul, Ebrill 18fed. Roedd y Gwasanaeth Teuluol o dan ofal Beth a Huw Roberts, ac yn goron ar y gwasanaeth bedyddiwyd Mari Gwen, merch fach Huw a Beth. Roedd yn braf cael croesawu teulu Beth o Bontypridd a theulu Huw o Fangor i'r Oedfa.

Llongyfarchiadau hefyd i Huw, tad Mari Gwen (Huw M) am ennill dwy wobr yng Ngwobrau Roc a Phop Radio Cymru yn ddiweddar.

**Merched y Capel**
Mi deithiodd aelodau Merched y Capel i Gaerdydd ar Ddydd Mawrth, Ebrill 13eg i fwynhau Cyngerdd awr ginio yn Neuadd Dewi Sant. Fe swynodd Pedwarawd Llinynnol yr Heath y gynulleidfa gyda pherfformiadau o weithiau Beethoven a Mendelssohn.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â Chapel Groeswen ar Fore Mawrth, Mai 18fed. Byddwn yn cyfarfod am 11 o'r gloch y bore yng Nghanolfan Arddio Caerffili i gael paned o goffi cyn mynd ymlaen i'r capel yng Ngroeswen.

**Trefn yr oedfaon ar gyfer Mis Mai**
Mai 2il. Oedfa Gymun ynghyd â Jen, Elenid a Nia yn rhoi hanes taith Lesotho.
Mai 9fed. Y Parchedig Aled Edwards
Mai 16eg. Oedfa Cymorth Cristnogol
Mai 23ain Oedfa Pentecost
Mai 30ain Y Parchedig Eirian Rees

# Ysgol Gymraeg Evan James

**Cystadleuaeth Hetiau Pasg.**
Mwynheuodd plant y dosbarthiadau derbyn gystadleuaeth hetiau Pasg. 'Roedd pawb wedi gwneud ymdrech arbennig ac wedi creu hetiau bendigedig ac yn edrych yn smart iawn.

**Cynllun Gwen.**
Daeth ymwelwyr o brosiect 'Cynllun Gwên' i'r dosbarthiadau meithrin i bwysleisio pwysigrwydd brwsio dannedd yn gyson ac yn gywir. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn seiliedig arno fel dosbarthu bwydydd a straeon addas.

**Cwis Llyfrau.**
Bu dau dîm o blant yn cystadlu yn y cwis llyfrau eto eleni, un o flwyddyn 3 a 4, ac un o flwyddyn 5 a 6. Cafwyd cyfle i astudio llyfrau T.Llew Jones a Berlie Doherty. Cawsant amser braf yn cystadlu yn Ysgol Dolau a diolch yn fawr i'r ysgol am eu croeso cynnes.

**Chwaraeon.**
**Rygbi.**
Aeth tîm rygbi'r ysgol i Ddyfnant yn ystod gwyliau'r Pasg i gystadlu mewn cystadleuaeth 10 bob ochr i ysgolion cynradd Cymru. Bu'n brofiad da ond dim lwc y tro yma. Daliwch ati fechgyn!
**Pêl-droed.**
Mae plant blwyddyn 3 (bechgyn a merched) yn ffodus iawn i gael cyfle i ymarfer sgiliau pêl-droed ar hyn o bryd. Daw ymwelydd yn wythnosol o glwb pêl-droed Dinas Caerdydd i hyfforddi'r plant. Mae'r plant wrth eu boddau yn cymryd rhan yn y fenter.

# Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

**Wâc Wellies**
Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri wrth fynd ar Wâc Mewn Wellies ar Fawrth 19eg. Roedd pob un yn edrych yn hynod o liwgar a phawb wedi mwynhau! Cynhaliwyd y Wâc Mewn Wellies i godi arian i elusennau tymor y Gwanwyn - sef BanglaCymru a Chanolfan Therapy Bobath yng Nghaerdydd sydd yn helpu plant â cerebral palsy. Diolch i bob un a gyfrannodd a diolch yn fawr i'r rhieni a ddaeth i gefnogi wrth gerdded gyda'r plant o flynyddoedd 1-6 o gwmpas ardal yr ysgol. Hoffwn hefyd ddiolch i'r heddlu lleol am eu cydweithrediad a'u cymorth wrth gerdded o gwmpas ystâd yr ysgol. Llwyddwyd i godi £664. Diolch am eich cefnogaeth unwaith eto!
Yn dilyn y Wâc Mewn Wellies, daeth Mr Wil Morus Jones, Sylfaenydd a Chadeirydd BanglaCymru, i gynnal gwasanaeth gyda disgyblion yr ysgol a dangos sut y bydd eu harian yn cael ei wario i helpu plant llai ffodus ym Mangladesh.

**Myfyrwyr UWIC**
Hoffwn estyn croeso i ddau fyfyriwr o Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd i'r ysgol. Mae Mr Leighton Daniel yn treulio amser yn dysgu disgyblion o flwyddyn 6 o dan ofal Mr O'Neil ac mae Miss Alexis Rees yn dysgu dosbarth o blant derbyn o dan ofal Mrs Hulse. Pob hwyl i'r ddau ohonynt.

**Pêl–rwyd**
Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd yr ysgol – enillwyd cystadleuaeth yn erbyn Ysgol Gynradd Pontyclun ar Fawrth 15fed. Da iawn chi ferched!

**Trip i Lancaiach Fawr**
Cafodd disgyblion o flynyddoedd un a dau ddiwrnod gwlyb iawn yn Llancaiach Fawr!! Serch hynny, roedd pob un wedi mwynhau yn fawr wrth grwydro o amgylch y plas yn dysgu am hanes bywyd gweision a phobl y plas. Diolch i'r holl rieni a ddaeth i helpu gofalu am y plant.










**Wâc Wellies**
**Ysgol Llantrisant**





**Plant ysgol Creigiau'n manteisio ar yr heulwen ac yn mwynhau gweithgareddau awyr-agored.**




**Cystadleuaeth Hetiau Pasg ysgol Evan James.**



**Maes Parcio Neuadd Efail Isaf**

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

**GENEDIGAETH**
Croeso i Zac mab i Yvonne a Simon Worgan, Etna Terrace. Dymuniadau gorau i'r teulu newydd.

**PENBLWYDD HAPUS**
Dymuniadau gorau i ddwy chwaer yng nghyfraith sy'n dathlu penblwyddi arbennig, sef Mrs Minnie Evans yn 93 ar Mai 4ydd a Mrs Lorraine Bryant yn 91 ar Mai 5ed. Llongyfarchiadau i'r ddwy gan obeithio y cant lawer penblwydd eto. Mae'r ddwy yn weithgar iawn yn y Gymuned ac yn aelodau o'r dosbarth gwnio. Mrs Bryant yw hyfforddwraig y Dosbarth Cwiltio ac mae wedi dysgu'r genhedlaeth iau sut i wneud cwiltiau Cymreig .

**MARW ATHRAWON**
Roedd pawb yn flin i glywed yn ystod yr wythnosau diweddaf am farwolaeth dau o'r athrawon fu'n llafurio yn y cwm am flynyddoedd lawer. Bu farw Mr Norman Parsons yn 98 mlwdd oed. Bu'n athro yn Ysgol Hendreforgan am nifer fawr o flynyddoedd.

Yna daeth y newydd am farwolaeth Miss Eirlys Davies a fu'n brifathrawes ar Ysgol y Babanod, Gilfach am flynyddoedd lawer. Roedd hithau yn ei 90au. Mae pawb yn cofio'n annwyl iawn am y ddau.

**CAU YSGOL**
Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf am gau Ysgol Babanod Gilfach ond mae llawer iawn o wrthwynebiad ac mae'r rhieni a chyfeillion yr ysgol yn ymdrechu'n galed i gadw'r ysgol ar agor.

Mae nhw wedi trefnu gorymdaith fydd yn cychwyn wrth Ysgol Hendreforgan, lle mae'r Cyngor am i'r plant fynd, ac yn cerdded i fyny'r cwm i Ysgol Gilfach er mwyn i bawb weld pa mor beryglus yw'r ffordd i gerdded. Mae nhw hefyd wedi gwneud trefniadau i fynd â'u protest i'r Cynulliad ym mis Mehefin.

**MYND AG ANRHEGION I RWMANIA**
Dros y Pasg aeth y Parch Ernie Banwell a fan llawn o nwyddau yn rhodd o'i eglwys yn y Gilfach i Gartref i Blant Amddifad yn Rwmania. Roedd yn ymuno â faniau eraill o rai o eglwysi Caerdydd. Bu merched ei gapel yn gweithio'n galed ers misoedd yn gweu hetiau a menig a dillad a gwnaeth sawl mudiad roi cefnogaeth ariannol i dalu am y daith. Roedd yn cychwyn ar y daith ddydd Llun y Pasg a byddai wedi cyrraedd erbyn eu Pasg yn Rwmania gan ei fod yn hwyrach yn cael ei ddathlu eleni yn y Dwyrain. Edrychwn ymlaen at ei weld ar ôl dod nôl a chael yr hanes ganddo.

**ADNEWYDDU'R LLWYBRAU**
Mae'n dda gweld fod y gwaith o adnewyddu'r llwybrau o gwmpas pen ucha'r cwm wedi dechrau Bydd yn braf cael llwybrau diogel i gerdded heb orfod mynd trwy'r llaid a mannau peryglus lle mae'r llwybyr wedi diflannu oherwydd y beiciau modur. Rhaid i'r Llywodraeth reoli'r beiciau gan fod pawb ymhobman yn cwyno amdanynt ar difrod sy'n cael ei wneud nid yn unig yn ein cwm ni ond mewn lleoedd megis Twyni Tywod Cynffig.

**ARDDANGOSFA**
Cynhaliodd Cymdeithas Dyfrliw Gilfach Goch eu pedwerydd Arddangosfa yn y Ganolfan Dydd yn ystod wythnos olaf mis Ebrill ac roedd yn dda gweld cymaint o luniau o safon mor uchel. Mae'r Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at y flwyddyn nesaf.

**Y GANOLFAN GYMUNEDOL**
Bydd rhaid aros tan y flwyddyn nesaf cyn bydd estyniad newydd yr adeilad yn barod gan y bydd y gwaith yn cymryd 42 wythos eto i'w orffen ond mae'r gweithgareddau yn mynd ymlaen fel arfer. Mae dosbarth newydd wedi dechrau sef dosbarth gwneud cardiau dan nawdd Coleg Morgannwg.

Mae grŵp yr amgylchedd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gwneud llawer i wella'r amgylchedd drwy lanhau'r afon ac ati. Maent yn trefnu teithiau cerdded er mwyn i bobl sylweddoli 'r cyfoeth sydd ym myd natur o'n cwmpas. Mae diwrnod wedi ei drefnu pan fydd camerau arbennig yn y cwm i fonitro cyflymder y ceir ac i wneud pobl yn ymwybodol o'u cyflymdra.

Mae rhagor o arian wedi dod i Gronfa Cymunedau'n Gyntaf a gall cymdeithasau wneud cais am grant at ddibennion arbennig.

# YSGOL GYFUN GARTH OLWG

**Eisteddfod Sir 2010**
Enillwyr cystadlaethau'r Urdd yn yr Eisteddfod Sir, 18 Mawrth 2010

Parti Merched Bl.7-9 1af
Grŵp Llefaru Bl.7-9 2ail
Cân Actol Bl.7-9 1af
Ymgom Bl.7-9 1af
Unawd Telyn 3ydd Eleri Roberts
Llefaru Unigol 3ydd Rhianydd Thomas
Llefaru Unigol Bl.10+1af Jay Worley
2ail Huw Blainey
Deuawd 2ail Bethan K. Jones a Kate Walters
Unawd Bechgyn 1af Huw Blainey
3ydd Elliot Wigfall
Unawd Llinynnol 1af Gwern Parri
Unawd o Sioe 1af Jay Worley
2ail Elliot Wigfall
Grŵp Llefaru dan 19 oed 1af
Côr Merched dan 19 oed 1af
Côr Meibion dan 19 oed 1af
Côr S.A.T.B. dan 19 oed 1af

Canlyniadau Celf a Chrefft yr Urdd
Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7 ac 8 1af Darcy Price
Gwaith Creadigol 2D Bl. 7 ac 8 1af Sophie Hughes
Gwaith Creadigol 3D Bl. 7 ac 8 1af Alaw Griffiths
Print Lliw Bl.7, 8 a 9 2il Megan Bassett

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd! Diolch i'r staff am eu gwaith called yn hyfforddi.

## *Y Gymraeg bob tro*

Ydych chi eisiau i'r cyngor gyfathrebu â chi fel unigolyn, naill ai drwy lythyr neu dros y ffôn, trwy gyfrwng y Gymraeg?

Os felly, mae angen i'ch enw chi fod ar gronfa ddata gofal cwsmer y cyngor.

Ffoniwch, anfonwch lythyr neu neges ebost yn nodi'ch manylion (enw, cyfeiriad a rhif ffôn) ar gyfer sylw staff Uned Gwasanaethau Cymraeg y cyngor a nodi'ch dewis.

***Uned Gwasanaethau Cymraeg***
*Tŷ Trevithick Abercynon Aberpennar CF45 4UQ*

**Caroline.m.mortimer@rhondda-cynon-taf.gov.uk**
**01443 744033 / 744069**

# YSGOL GYFUN GARTH OLWG

(Lluniau tudalen 16)

**Disgyblion Cyfryngau yn ffilmio ar gyfer Ysgolion yr 21 ganrif !**

Mae'r ysgol wedi gweithio'n agos iawn gyda Media4Schools ers sawl blwyddyn bellach ac o ganlyniad caiff myfyrwyr Cyfryngau brofiadau hynod gyfoethog ac anarferol! Cafodd rhai disgyblion o grŵp cyfryngau Bl 12 gyfle arbennig yn ddiweddar, sef, gwneud cyfweliadau yn datgan eu barn am adnoddau'r ysgol a'r adeilad newydd. Yn rhan o'r broses cawsant gyfle i gynorthwyo ar yr ochr dechnegol o ddefnyddio'r camera a bŵm. Y tro hwn bwriad y ffilmio oedd creu DVD a oedd yn rhan o gynhadledd fawr "21st Century Schools" y Cynulliad a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, 16eg Mawrth.

Roedd y gynhadledd yn trafod y ffyrdd gall y llywodraeth wella'r adeiladau ac adnoddau ar gyfer ysgolion Cymru. Ar y 16eg Mawrth hefyd cafodd dau o'r myfyrwyr gyfle i ffilmio'r gynhadledd yn stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd.

**Llais Disgyblion Cymru**

Cafodd rhai o ddisgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg y cyfle yn ddiweddar i fynychu lansiad gwefan newydd y Cynulliad sef "Llais Disgyblion Cymru". Yno cawsant gwrdd â Joe Ledley, clwb pêl droed Caerdydd a Huw Lewis AC, Is-weinidog dros Blant.

**'Dal y Don!' – Clwb Syrffio Garth Olwg !**

Ar y 24 Chwefror es i a chriw o Flwyddyn 12 ar daith syrffio i Gei Newydd, Cernyw gyda Mr Tyler, Miss Dwerryhouse a Mr Thomas. Cawsom wers syrffio o ddwy awr a hannerddydd Sadwrn. Dysgom sut i ddal y tonnau ar yr amser iawn a sut i orwedd ar y bwrdd a hefyd sut i sefyll ar ein pengliniau ac ar ein traed. Ar ôl ymestyn ein cyhyrau aethom i'r dŵr i gael tro go iawn arni !

Yn rhyfeddol, llwyddodd y rhan fwyaf ohonom i sefyll i fyny ar ôl tipyn, ac roedd Mr Thomas yn llawer gwell na Mr Tyler! Roedd yn ddoniol gwylio pawb yn eu gwisg nofio. Ar ôl y wers aethom allan i'r pentref i edrych o gwmpas y siopau a chael rhywbeth i fwyta cyn mynd yn ôl i'r gwesty i ymlacio am weddill y noson.

Ar y dydd Sul cawsom wers arall lle dysgom sut i droi'r byrddau yn y dŵr a gwneud siâp "S". Roedd y tonnau'n llawer mwy ffyrnig y diwrnod hwnnw a'r cerrynt yn ein tynnu ni ar draws y traeth. Cafodd pawb eu bwrw'n galed gan y tonnau! Erbyn y diwedd roedd Carys a minnau yn nofio gan nad oedd unrhyw obaith gennym o gael y byrddau dros y tonnau! Roedd angen cawod boeth arnom wedyn gan fod y dŵr yn ofnadwy o oer.

Mewn chwinciad, roedd yn amser gadael a rhoi ein bagiau ar y bws mini a dechrau ar ein siwrne adref. Cawsom benwythnos hyfryd ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r athrawon am fynd â ni. Trowch at y Galeri ar wefan yr ysgol www.gartholwg.org.uk i gael gweld sut hwyl gawsom!

Frances Bennett, Blwyddyn 12



**Huw Blainey a Jay Worley**

**Clwb Roboteg**

Ar 26ain Chwefror cafodd ugain o ddisgyblion Blwyddyn 10 y cyfle i wneud cwrs mewn Roboteg. Death dau ddarlithydd o'r Brifysgol i'r ysgol i redeg y cwrs i ni. Bwriad y cwrs oedd gwella ein sgiliau allweddol ac i ddysgu heb sylwi cymaint rydym yn dysgu wrth wneud pethau gwahanol - ac wrth gwrs i gael tipyn o hwyl gyda'r robotiaid!

Roedd yn brofiad addysgiadol gwych ac fe wnaethom fwynhau gweithio mewn timau. Rydym yn ddiolchgar iawn am gael y cyfle ac yn gobeithio bydd cyfle eto yn y dyfodol. Diolch i'r athrawon a'r darlithwyr o'r Brifysgol am drefnu'r dydd.

Harriot Mather, Carys Raison
a Georgia Cooper, Blwyddyn 10.

**Actorion Talentog Garth Olwg!**

LLONGYFARCHIADAU mawr i Huw Blainey a Jay Worley Blwyddyn 12! Ar ôl cyfres o glyweliadau, mae'r ddau wedi cael eu dewis yn aelodau o Theatr Ieuenctid Genedlaethol Cymru. Bydd y ddau yn ymarfer yn galed dros wyliau'r haf cyn mynd ar daith gyda drama gomisiwn gan Marion Eames ym mis Medi. Da iawn chi'ch dau!

**Eisteddfod Sir yr Urdd**

Cafodd yr ysgol fuddugoliaethau di-ri yn Eisteddfod Sir yr Urdd eleni - bydd bysiau llawn yn gadael Garth Olwg am Lanerchaeron diwedd mis Mai! Mae'r canlyniadau ar dudalen 14!

# Dyddiadur Taith Uganda 14/02/10 - 19/02/10 Rhan 2

**Dydd Mercher 17/02/10**

Bore 'ma aethom draw i gwrdd â chynrychiolydd y Cyngor Prydeinig yn Uganda i drafod ein gwaith hyd yma a'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Yna yn y prynhawn fe gawsom fynd i Ysgol Gynradd Kawempa Decorous a hefyd yr Ysgol Feithrin roedd Dorothy a'i gwr, Issac, wedi sefydlu fel ysgol gynradd breifat.

Roedd y disgyblion eto mor frwdfrydig ar gyfer eu haddysg ac yn edrych ymlaen at gael y cyfle i ni eu dysgu! Hefyd roedd yn gyfle gweld sut fath o le'r oedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw ynddo gan ei fod yn ysgol ddydd a nos.

Heno aethom draw i dŷ Charles i gael bwyd. Cyfle gwych arall i drafod gyda'r athrawon o bob ysgol ac i gymharu ein profiadau.

**Dydd Iau 18/02/10**

Teithio i weld mannau hanesyddol yn Kampala fel Beddrodau Kasubi, sef lle'r oedd y Brenin yn arfer byw. Hefyd cawsom fynd i weld yr Eglwys Gadeiriol ac Amgueddfa Uganda.

Pryhawn 'ma cawsom wahoddiad gan y tair ysgol i weld sioe roedden nhw wedi ei pharatoi ar ein cyfer - a rhaid dweud ei bod wedi bod yn sioe wych - yn dangos yr holl wahanol dalentau sydd gan bob disgybl o ganu i ddawnsio.

**Dydd Gwener 19/02/10**

Profiad gwych heddiw! Gweld lle mae'r afon Nîl yn dechrau, Bujagali Falls a Fforest Mabira. Tra roedden ni yno cawsom ginio allan a thrafodaeth ar sut roedden ni fel clwstwr yn mynd i barhau gyda'r gwaith yma sydd wedi bod yn digwydd dros y tair blynedd diwethaf. Mae pawb mor awyddus iddo barhau!

Hedfanodd yr wythnos ond fe gawsom brofiad arbennig iawn a chawsom ein trin yn wych. Diolch yn fawr i bawb yng nghlwstwr Uganda am roi cyfle bywyd i ni!



**Yr Eglwys Gadeiriol , Kampala**

# LLUNIAU YSGOL GYFUN GARTH OLWG



Jessica Lee, Catrina Dowding a Danielle Fountain yn brysur yn ffilmio.



Disgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg gyda Joe Ledley, Clwb Pêl Droed Caerdydd



Disgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg gyda Huw Lewis AC, Is-weinidog Dros Blant



Pawb yn paratoi



Mr Thomas yn mwynhau!




## Taith Uganda



Sioe dalentog gan y disgyblion



Ysgol Gynradd Kawempa, Uganda



Yr Afon Nîl